Ein cyf/Our ref: SW/hr
Eich cyf/Your ref: 02

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Maes y Ffynon
Penrhosgarnedd,
Bangor,
Gwynedd
LL57 2DW
Ebost/Email: Sian.Williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn/Phone: 03000 654442

4 Medi 2020

Annwyl Judith

**Dyrannu cyllid grant CNC i gynorthwyo i gyflawni amcanion llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru.**

Caiff CNC ei gynrychioli ar bob un o'r 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ledled Cymru. Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i gyflawni cynlluniau ac amcanion BGC. I ategu'r ffordd hon o weithio, mae Bwrdd CNC wedi cytuno y dylai grant wedi'i glustnodi fod ar gael i bob BGC yng Nghymru, a'r bwriad yw parhau â'r cyllid hwn ar gyfer y cyfnod rhwng 2020/21 – 2023/24. Golyga hyn swm o £25,000 i bob BGC yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Sylweddolwn fod y chwe mis diwethaf wedi bod yn eithriadol. Nid yw'r BGC wedi cyfarfod wyneb yn wyneb ers dechrau'r flwyddyn, ac o'r herwydd nid ydym wedi cael cyfle i drafod y grant hwn na sut y dylem weithio gyda'n gilydd i flaenoriaethu gwariant eleni. Er gwaethaf hyn, teimlwn ei bod yn bwysig anrhydeddu'r ymrwymiad grant y flwyddyn ariannol hon. Mae meithrin gwytnwch ein cymunedau, cysylltiad ein cymunedau â natur, a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn parhau i fod yn hollbwysig wrth inni gynllunio ar gyfer adferiad gwyrdd. Nodir manylion y broses dyfarnu grantiau yn Atodiad 1. Pwrpas y grant yw cynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud y canlynol:


- Cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yng nghynllun llesiant y BGC, yn cynnwys gwell cydlynu a ffyrdd newydd o weithio, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y blaenoriaethau hynny sy'n cynyddu'r cyfraniad at yr argyfyngau natur a hinsawdd.

Dyma ffordd o weithio y byddwn yn parhau gyda hi yn y dyfodol, gyda'r nod o ddyrannu cyllid tymor hwy ar gyfer BGCau o'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen. Os nad ydych yn credu bod y BGC mewn sefyllfa i gyflawni yn erbyn y dyraniad llawn/rhannol eleni, byddwch yn ymwybodol na fydd hyn yn effeithio o gwbl ar unrhyw gynigion i ddyrannu cyllid yn y dyfodol.

Fel aelod o'r BGC, byddaf mewn cysylltiad i drafod y llythyr hwn a'r camau nesaf (fel y'u nodir yn Atodiad 1). Gofynnir ichi ymateb i'r llythyr hwn o fewn 15 diwrnod o'i dderbyn. Edrychaf ymlaen, felly, at siarad gyda chi cyn bo hir.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Yn gywir



**Siân Williams**

**Pennaeth Gweithrediadau y Gogledd Orllewin /**
**Head of Operations North West**